Cyngor Cymuned Llanwnda

Newyddion Cyngor Cymuned Llanwnda
Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn gan y Cadeirydd, Jason Hunt.
Datgan Buddiant
Aeron M.Jones – cynllunio
Cadarnhau cofnodion
Cadarnhawyd cofnodion fis Tachwedd fel rhai cywir, ni gynhaliwyd pwyllgor llawn yn ystod mis Rhagfyr.
Materion i'w trafod:
Cerrig yn dod i'r ffordd rhwng Bryn Golau ac Ael y Bryn yn Rhosgadfan, wrth i ddefaid ddod o'r mynydd a drosodd i'r ffordd. Clerc wedi cysylltu efo'r Cyngor ac wedi nodi enw'r perchennog. Disgwyl clywed yn ôl.
Coed yn gor-dyfu ger Glyn Afon, Rhosgadfan, ac felly'n cysgodi'r lamp ac yn tywyllu'r ardal gyfan, gan ei gwneud yn anodd i yrrwyr bysiau weld pobl sy'n disgwyl bws.
Cwynion wedi dod i law ynglyn ag oriau syrjeri Rhostryfan. Bellach nid yw'n bosib i bobl sy'n gweithio tan 5 gael mynediad i'r syrjeri gan mai dim ond rhwng 12.30 a 3.30 o ddydd Llun i ddydd Iau mae'r syrjeri'n agored. Clerc wedi cael gair gyda Dr.Edwin Williams, ac eglurodd Dr.Williams ei bod yn anodd cyfiawnhau cadw'r syrjeri yn agored ar ôl 5 gan mai ychydig iawn o ddefnydd a wneir ohoni, tra bod rhestr wrth gefn yng Nghaernarfon yn aml. Mae'n bwysig i bawb geisio annog eu teuluoedd a'u ffrindiau i ddefnyddio'r syrjeri yn Rhostryfan – mwya'n y byd o ddefnydd a wneir ohoni, gorau oll. AMJ am roi oriau agor ac ati ar bamphled sydd i'w ddosbarth i bawb yn y cylch.
Eglurodd Dr.Williams ymhellach ei bod yn fwriad gan y practis i gadw syrjeri Rhostryfan yn agored, ac i'r perwyl maent wedi buddsoddi mewn system gyfrifiadurol newydd i'r feddygfa. Yn anffodus, mae'r system llinellau ffôn yn annigonnol i'r system gyfrifiadurol, ond maent yn ceisio datrys y broblem ar fyrder.

Llwybr Gors Goch – ceffylau wedi malu'r tir eto eleni, ac yn ei gwneud ym amhosib i gerdded y llwybr. Clerc wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb.
Problemau traffig a pharcio ar y ffordd sy'n arwain i Ysgol Rhostryfan – gofyn eto am gyfarfod safle.
Monitro traffig yn Saron – Aeron Jones am gael canlyniadau'r archwiliad
Cae Chwarae Rhosgadfan – cyfarfod cyhoeddus wedi'i gynnal ar y 9fed o Ragfyr, ond yn anffodus roedd hi'n amhosib i Aeron fod yn bresennol, felly mae cyfarfod arall i'w drefnu mis nesaf.
Adeilad perygl – Capel Gorffwysfa/Min y Mynydd – wedi cael ymateb gan Gyngor Gwynedd. Nodwyd er fod yr adeilad yn flêr, nid yw, fodd bynnag, yn beryglus.
Materion Aeron Jones: stoc tai; defnydd o gerbydau'r cyngor; rhestr materion i Meirion Williams; problemau yn nhai Bro Cadfan; dwr ar y ffordd yn Dolydd; tir ger safle Sain, Llandwrog; materion trafnidiaeth. Nododd Aeron fod y rhan fwyaf o'r problemau yma yn cael sylw, a'i fod yn dilyn fyny ar y rhai nad ydynt hyd yma wedi'u datrys.
Wedi cael ymateb gan Gyngor Gwynedd ynglyn â drych newydd ger Ty Nant a Tai Tanrallt, hefyd ymateb ynglyn a 'speedbumps' ger Dreflan. Swyddogion perthnasol yn ymwybodol o'r sefyllfa.
Ymateb gan Hywel Williams AS ynglyn â chwynion am feiciau modur bach & mater stoc dai

Un Llais Cymru – Cyfarfod Ardal Bro – Nos Lun, 26ain Ionawr, Y Ganolfan, Porthmadog. Clerc i fynychu.

Derbyn Adroddiadau:
Is-bwyllgorau:
Is-bwyllgor cyllid: nos Lun, 1af o Ragfyr yn Rhostryfan. Trafodwyd argymhellion yr archwiliwr allanol. Angen i'r pwyllgor llawn drafod a chadarnhau'r penderfyniadau. Clerc i baratoi cyllideb lawn ar gyfer mis nesaf, er mwyn i'r aelodau gael penderfynu'n derfynol ar gyllid y flwyddyn.
PRAESEPT – penderfynwyd codi rhywfaint ar y praesept gan gofio bod angen gwario ar sawl prosiect eitha drud dros y blynyddoedd nesaf, ee tir y fynwent, prosiect lein Bryngwyn ayyb**.** Penderfynwyd codi'r praesept i £19,700, sef codiad o £5,000 y flwyddyn.
Ceisiadau am nawdd – i'w trafod mis nesa:

Materion Cynllunio
CO8A/0701/24/AM – tir ger Bryn Coch, Rhos Isaf – codi un a ty a chreu mynedfa newydd – aelodau'n poeni braidd am y fynedfa, gan fod y safle gerbron troad eitha prysur.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:`
CO8A/0721/24/TR – Muriau, Rhosgadfan - gosod gwifren trydan.

Eisoes wedi'u caniatau:
Capel Glanrhyd – lledu mynedfa a chreu lle parcio ffurfiol
CO8A/0692/24/LL – Parc Carafannau White Tower – diwygio amod 4 fel bod y carafanau teithiol yn aros ar y lleiniau rhwng 10fed Ionawr a 1af Mawrth yn ystod un flwyddyn.
Bod Garad – sied amaethyddol a gwyro llwybr
Nant Bach – dymchwel ty ac adeiladu un newydd a garej

Gohebiaeth:
Gwasanaeth Llysoedd – ceisio recriwtio mwy o Ynadon Heddwch.
Cyngor Iechyd Cymuned – strwythr newydd GIG yng Ngymru.
Cofnodion pwyllgor Grwp Cyswllt Lleol Cilgwyn gynhaliwyd 23.10.08.
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd – cynllun Trosedd ac Anrhefn**.**